AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Canlyniadau ceir, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (yr Arolwg Teithio). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion a 18,000 o deithiau a gofnodwyd o bob cwr o Gymru. Ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yw'r data.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar deithio mewn car. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth am sut mae pobl yn teithio, a'u barn a'u hagweddau tuag at deithio mewn car.

Mae'r Arolwg Teithio yn arolwg newydd, a dyma'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Efallai fod gwahaniaethau'n codi oherwydd bod diffiniadau gwahanol wedi'u defnyddio ar gyfer arolwg, gan fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio neu gan fod gwahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data'n cael ei gasglu o sypiau rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026. Mae gwybodaeth am ansawdd ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd.

Mae nifer o dermau sy'n ymwneud yn benodol â thrafnidiaeth wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi llunio dogfen ddiffiniadau i helpu pawb i ddeall.

Y prif ganfyddiadau

- Rydym yn amcangyfrif bod 74.3% o deithiau y pen y flwyddyn wedi'u gwneud mewn car.
- Dywedodd 82.7% o ymatebwyr eu bod yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos. Dywedodd 7.1% o ymatebwyr nad oeddent wedi defnyddio car o gwbl yn y deuddeg mis diwethaf.
- Roedd 85.8% o gyfanswm y pellter a deithiwyd y pen y flwyddyn mewn car.
- Nid yw 15.9% o aelwydydd yn berchen ar gar neu gerbyd modur neu nid oes ganddynt gar neu gerbyd at eu defnydd.
- Roedd 81.9% o ddefnyddwyr car naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu taith gyffredinol.
- Dim ond 35.3% o ymatebwyr oedd yn fodlon ar ansawdd ffyrdd.
- Y rheswm mwyaf poblogaidd pam roedd ymatebwyr yn teithio mewn car oedd oherwydd mai dyma'r "llwybr mwyaf uniongyrchol" (49.7%).

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o Ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n dod i 100%.

Amlder teithiau mewn car

Roedd y cwestiynau am ba mor aml yr oedd pobl yn teithio yn mesur pa mor aml yr oedd unigolyn wedi teithio mewn car yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Gall hyn fod naill ai fel gyrrwr neu fel teithiwr. Mae amlder teithio yn wahanol i gyfran y dull teithio, sef cyfran y teithiau y pen y flwyddyn a wneir mewn car.

- Dywedodd 82.7% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos (55.8% y rhan fwyaf o ddiwrnodau, 20.4% sawl gwaith yr wythnos a 6.5% unwaith yr wythnos).
- Roedd 9.6% o'r ymatebwyr yn teithio mewn car yn anaml. Dywedodd 4.7% eu bod yn defnyddio car unwaith neu ddwywaith y mis, 2.6% unwaith bob ychydig fisoedd, a 2.3% unwaith neu ddwywaith yn ystod y flwyddyn.
- Dywedodd 7.1% o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio car o gwbl.

Car: amlder teithio

Ffigur 1: Pa mor aml yr oedd ymatebwyr wedi defnyddio car dros y deuddeg mis diwethaf, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol yn dangos canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio car yn aml, yn anaml neu ddim o gwbl. Dywedodd 82.7% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio car yn aml. Dywedodd 9.3% o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio car yn aml a dywedodd 7.1% nad oeddent yn defnyddio car o gwbl.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amlder teithio

Statws anabledd

- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr nad ydynt yn anabl (86.6%) eu bod yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu ag ymatebwyr anabl (74.2%).

Rhanbarthau

- Roedd mwy o ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos (86.1%) o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Roedd 84.8% o'r ymatebwyr yng Ngogledd Cymru, 81.8% yn Ne-orllewin Cymru ac 81.4% yn Ne-ddwyrain Cymru yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos.

Grŵp oedran

- Roedd yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos ar ei uchaf yn y grŵp 55-64 oed, sef 86.8%. Roedd yn llai cyffredin ymysg y rhai 16-24 (78.8%), 75-84 (77.3%) ac 85 neu hŷn (67.0%).

Cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yn graddio amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi'u grwpio'n gwintelau (pum grŵp o'r un maint). Mae Cwintel 1 (C1) yn cynnwys 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Cwintel 5 (C5) yn cynnwys 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Mae gwybodaeth ynghylch sut mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn diffinio amddifadedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Nododd cyfran uwch o ymatebwyr eu bod yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos yn C4 (87.8%) ac C5 (87.1%) nag C1 (74.9%) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Deiliaid trwydded yrru cerbyd

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd ganddynt drwydded yrru lawn ddilys ym Mhrydain Fawr i yrru naill ai car, neu feic modur, sgwter neu foped.

- Dywedodd 75.8% o'r ymatebwyr fod ganddynt drwydded yrru lawn. Nid oedd gan 22.9% drwydded.
- Dywedodd 81.1% o ddynion a ymatebodd fod ganddynt drwydded o'i gymharu â 72.1% o'r menywod a ymatebodd.
- Roedd cyfran yr ymatebwyr nad ydynt yn anabl a oedd â thrwydded yrru (81.2%) yn uwch na chyfran yr ymatebwyr anabl (65.5%).
- Canolbarth Cymru oedd â'r gyfran uchaf o breswylwyr a oedd â thrwydded yrru lawn (85.4%) ac yna De-ddwyrain Cymru (78.2%), Gogledd Cymru (77.6%) a De ddwyrain Cymru (72.6%).
- Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd â thrwydded yrru lawn wedi cynyddu wrth i amddifadedd ostwng o 59.7% yn C1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i 85.3% yn C5.

Perchnogaeth ceir

- Ledled Cymru, rydym yn amcangyfrif nad oedd 15.9% o aelwydydd yn berchen ar gar neu gerbyd modur preifat arall nac â char neu gerbyd modur preifat arall at eu defnydd.
- Roedd gan 37.0% o aelwydydd fynediad at un car neu gerbyd modur preifat arall, gyda 47.1% yn gallu defnyddio dau gar neu fwy.
- Ymysg trigolion C1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, nid oedd gan 29.1% o aelwydydd fynediad at gar na cherbyd modur preifat. Roedd gan 38.4% o aelwydydd fynediad at un car, ac roedd gan 32.5% o aelwydydd fynediad at ddau gar neu fwy.

- Mewn cymhariaeth, roedd perchnogaeth ceir yn llawer uwch ymhlith y rhai a oedd yn byw yn C5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Dim ond 8.8% o aelwydydd yn yr ardaloedd hyn oedd heb gar na cherbyd modur preifat, ac roedd gan 58.2% o aelwydydd fynediad at ddau neu fwy.

Cerbydau trydan

- Roedd y nifer sy'n berchen ar gerbydau trydan yn isel. Yn genedlaethol, rydym yn amcangyfrif bod 3.6% o aelwydydd yn berchen ar gerbyd trydan. Roedd hyn ar ei uchaf ymysg y rhai a oedd yn byw yn C5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (4.7%), ac ar ei isaf ymysg y rhai a oedd yn byw yn C1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2.1%).
- Roedd perchnogaeth cerbydau trydan wedi'i dosbarthu'n weddol gyfartal yn ôl rhanbarth. De-orllewin Cymru (3.0%) oedd â'r gyfran isaf o berchnogaeth, ac yna Gogledd Cymru (3.5%). De-ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru oedd â'r gyfran perchnogaeth uchaf ar y cyd, gyda 3.9% o aelwydydd yn berchen ar o leiaf un cerbyd trydan.

Ceir fesul aelwyd

Ffigur 2: Cyfran yr aelwydydd yn ôl nifer y ceir neu gerbydau modur sy'n eiddo iddynt a chwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2025/26.



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol yn dangos perchnogaeth ceir yn gyffredinol ac yn ôl C1 ac C5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae aelwydydd mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig (C1) yn berchen ar lai o geir na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig (C5).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, perchnogaeth ceir

Cyfran o'r prif ddull teithio

Mae'r prif ddull teithio yn cyfeirio at y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y pellter hiraf o fewn taith. Y gyfran o'r prif ddull teithio yw canran y teithiau y pen y flwyddyn sy'n cael eu cwblhau drwy brif ddull penodol.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod ymatebwyr wedi gwneud 463.7 taith y pen y flwyddyn mewn car, naill ai fel gyrrwr neu fel teithiwr.

- Yn gyffredinol, rydym yn amcangyfrif bod 74.3% o deithiau y pen y flwyddyn wedi cael eu gwneud mewn car fel y prif ddull teithio. Roedd 80.2% o'r teithiau hyn fel gyrrwr (59.6% o'r holl deithiau), ac roedd 19.8% fel teithiwr (14.7% o'r holl deithiau).
- Roedd y rhan fwyaf o deithiau mewn car yn defnyddio ceir petrol (50.8%). Roedd ceir disel yn cyfrif am 36.2% o'r holl deithiau mewn car. Roedd ceir hybrid (7.7%) a cherbydau trydan (5.0%) yn llai cyffredin.
- Preswylwyr yng Ngogledd Cymru oedd yn gwneud y gyfran fwyaf o'u teithiau mewn car (79.1%). Dilynwyd hyn gan Ganolbarth Cymru (76.7%), De-orllewin Cymru (74.9%) a De-ddwyrain Cymru (71.3%).
- Roedd mwy o geir yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd gwledig. Roedd trigolion ardaloedd gwledig yn gwneud 82.1% o'u teithiau mewn car, naill ai fel y gyrrwr neu'r teithiwr, o'i gymharu â 71.1% o deithiau gan breswylwyr trefol.

Teithio mewn car: Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhanbarth

Ffigur 3: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn mewn car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr), 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol sy'n dangos cyfran y teithiau, y pen y flwyddyn mewn car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr). Roedd 71.3% o deithiau yn Ne-ddwyrain Cymru yn cael eu gwneud mewn car, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (74.3%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, cyfran o'r prif ddull teithio

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl amlder teithio

- Nodwyd bod 82.7% o'r ymatebwyr yn defnyddio ceir yn aml, gan ddweud eu bod yn defnyddio'r dull hwn o deithio o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd y defnyddwyr rheolaidd hyn yn cyfrif am 93.7% o'r holl deithiau mewn ceir.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- Roedd pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn gwneud llai o deithiau, a chyfran is o deithiau, mewn car. Roedd y rheini a oedd yn byw yn C1 yn gwneud 382.1 taith y pen y flwyddyn mewn car, neu 70.1% o'u teithiau. Preswylwyr C4 oedd yn gwneud y gyfran uchaf o deithiau mewn car (78.2%, neu 525.8 taith y pen y flwyddyn), ond y rheini yn C5 oedd yn gwneud y nifer mwyaf o deithiau y pen y flwyddyn mewn car yn gyffredinol (528.5 taith, neu 75.4%).

Mynegai o wyth gwahanol fath o amddifadedd yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Cyfeirir at y rhain fel meysydd amddifadedd. Ochr yn ochr â chwintelau cyffredinol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, rydym hefyd wedi dadansoddi ymddygiad teithio yn ôl y maes incwm a'r maes mynediad at wasanaethau.

Mae'r maes incwm (amddifadedd incwm o hyn ymlaen) yn mesur cyfran y bobl sy'n wynebu amddifadedd sy'n gysylltiedig ag incwm isel.

Mae'r maes mynediad at wasanaethau (amddifadedd mynediad at wasanaethau o hyn ymlaen) yn cofnodi anallu aelwyd i gael gafael ar wasanaethau sy'n angenrheidiol i fyw o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys amddifadedd materol (fel methu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol ar amddifadedd (fel methu mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol).

Mae rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn ar gael yn adroddiad technegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025.

- O ystyried y cwintelau amddifadedd mynediad at wasanaethau, rydym yn amcangyfrif bod cyfran y teithiau mewn car wedi gostwng wrth i fynediad at wasanaethau wella. Roedd y rheini a oedd yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl mynediad at wasanaethau yn gwneud 84.5% o'u teithiau mewn car, o'i gymharu â dim ond 66.2% o deithiau ymysg y rheini yn yr 20% lleiaf difreintiedig.
- Yn ôl cwintelau amddifadedd incwm, roedd cyfran y teithiau mewn car ar ei hisaf ymysg C1 (68.9%), ac yna C5 (72.9%). C4 oedd â'r gyfran fwyaf o ran ceir, sef 80.4%.

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl rhyw yr ymatebydd

- Roedd y dynion (74.5%) a'r menywod a ymatebodd (74.2%) ill dau wedi gwneud cyfran debyg o deithiau mewn car.

- Roedd dynion a ymatebodd yn gwneud 89.0% o'r teithiau mewn car fel gyrrwr (66.3% o'r holl deithiau), ac roedd 11.0% yn gwneud teithiau mewn car fel teithiwr (8.2% o'r holl deithiau).
- Roedd y menywod a ymatebodd yn gyrru'r car mewn 72.3% o'r teithiau mewn car (53.6% o'r holl deithiau) a 27.7% yn mynd fel teithiwr (20.5% o'r holl deithiau).

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl grŵp oedran

- Rydym yn amcangyfrif mai ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed oedd yn gwneud y gyfran isaf o'u teithiau mewn car (54.3%), gyda'r gyfran uchaf fel teithiwr (41.0% o deithiau car). Ymatebwyr 45 i 64 oed oedd yn gwneud y gyfran fwyaf o deithiau mewn car (80.4%).

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl statws anabledd

- Roedd ymatebwyr anabl yn gwneud 71.2% o'u teithiau mewn car, o'i gymharu â 75.6% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl.
- Roedd ymatebwyr anabl hefyd wedi gwneud cyfran uwch o'u teithiau mewn car fel teithiwr (30.1%) o'i gymharu ag ymatebwyr nad ydynt yn anabl (16.8%).

Teithiau aml-ddull

Pan fydd dau ddull teithio neu fwy yn cael eu defnyddio ar gyfer un daith, gelwir hyn yn daith aml-ddull. Y prif ddull teithio yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer y pellter hiraf yn y daith. Diffinnir dulliau eraill a ddefnyddir yn y daith fel dulliau ychwanegol. Mae rhagor o fanylion am deithiau aml-ddull ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod 10.5% o'r holl deithiau yn rhai aml-ddull (65.4 taith y pen y flwyddyn).

- Teithio mewn car oedd y prif ddull mwyaf cyffredin a oedd yn cael ei ddefnyddio mewn teithiau aml-ddull, mewn 37.6% o deithiau aml-ddull.
- Roedd car yn cael ei ddefnyddio, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr, fel dull teithio ychwanegol (nad oedd yn brif ddull teithio) mewn 9.6% o deithiau aml-ddull.
- Nid oedd ceir yn cael eu defnyddio'n aml fel dulliau teithio i safleoedd bysiau ac oddi yno. Dim ond 1.2% o deithiau i safleoedd bysiau ac 1.4% o safleoedd bysiau a wnaed mewn car, naill ai fel gyrrwr neu fel teithiwr.
- I'r gwrthwyneb, roedd 18.8% o deithiau i orsaf drenau a 10.9% o deithiau o orsaf drenau yn cael eu gwneud mewn car. Dyma'r ail ddull mwyaf poblogaidd o deithio yn ôl ac ymlaen i orsafoedd trenau, ar ôl cerdded ac olwyno.

Pellter y daith

Pellter y daith mewn car yw hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol sy'n bosibl rhwng y man cychwyn a'r gyrchfan. Nid yw'n cael ei fesur fel llinell syth o'r man cychwyn i'r gyrchfan.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi cyfrifo pellteroedd ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod hyd cymedrig y daith ar draws pob dull o deithio yn 15.5km, gyda hyd canolrifol taith yn 5.8km.

- Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod pobl yng Nghymru wedi teithio 8,293.2km y pen y flwyddyn mewn car, naill ai fel gyrrwr neu fel teithiwr. Mae hyn yn cyfrif am 85.8% o'r holl bellter a deithiwyd y pen y flwyddyn.
- Hyd cymedrig y daith mewn car yw 17.9km. Roedd hyd cymedrig y daith fel teithiwr fel arfer ychydig yn hirach (19.8km) na'r teithiau fel y gyrrwr (17.4km). Roedd y pellter teithio canolrifol mewn car, naill ai fel y gyrrwr neu'r teithiwr, yn 8.0km.
- Roedd car yn cael ei ddefnyddio fel y prif ddull teithio mewn 22.8% (17.2 taith y pen y flwyddyn) o'r holl deithiau o dan 1km o hyd, a 70.1% (150.8 taith y pen y flwyddyn) o'r holl deithiau rhwng 1km a 5km o hyd. Ar gyfer pob grŵp pellter arall, roedd defnyddio ceir hyd yn oed yn fwy amlwg fel y prif ddull o deithio.
- Roedd preswylwyr ardaloedd gwledig yn teithio 10,949.5km y pen y flwyddyn mewn car, neu 90.6% o gyfanswm eu pellter teithio. Mae hyn yn llawer mwy na'r 7,213.9km y pen y flwyddyn (83.0% o'r cyfanswm) y mae preswylwyr ardaloedd trefol yn ei deithio.
- Ymysg teithiau mewn ceir, ceir petrol oedd â'r gyfran fwyaf o ran pellter (44.0%), ac yna ceir disel (40.4%). Roedd cerbydau hybrid yn cael eu defnyddio mewn 7.8% o gyfanswm y pellter mewn car a 5.8% gan gerbydau trydan.
- Mae anghydraddoldeb tebyg yn y pellter a deithir yn ôl Cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Roedd preswylwyr C1 yn teithio 4,824.2km y pen y flwyddyn mewn car. I'r gwrthwyneb, roedd unigolion a oedd yn byw yn y cwintel lleiaf difreintiedig (C5) yn teithio 9,168.2km y pen y flwyddyn mewn car. Roedd trigolion C4 yn teithio bellaf mewn car, sef 10,087.5km y pen y flwyddyn.

Teithio mewn car: Cyfanswm y pellter a deithiwyd yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Ffigur 4: Cyfanswm y pellter a deithiwyd (km) y pen y flwyddyn mewn car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr) a chwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar llorweddol sy'n dangos cyfanswm y pellter a deithiwyd y pen y flwyddyn mewn car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr) mewn cilomedrau. Roedd yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (C1) yn teithio 4,824.2km y pen y flwyddyn, llai na hanner y 9,168.2km a deithiwyd gan yr 20% lleiaf difreintiedig (C5).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, pellter y daith

Pwrpas y daith

'Pwrpas y daith' yw'r prif reswm pam yr oedd ymatebydd yn teithio. Yn aml, mae hyn yn seiliedig ar y gweithgaredd a wneir ym man cychwyn y daith neu yn y gyrchfan. Mae teithiau hamdden yn unig, lle mai'r weithred o deithio yw'r gweithgaredd hamdden (er enghraifft, mynd i redeg neu gymryd rhan mewn chwaraeon) wedi'u heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol o deithiau cyfleustodau.

Mae gwybodaeth am y teithiau a gynhwyswyd ar gael yn ein diffiniadau.

- Roedd y daith fwyaf poblogaidd mewn car, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr, yn cyd-fynd â'r dibenion teithio mwyaf poblogaidd yn gyffredinol. Siopa (22.4%) oedd y rheswm mwyaf poblogaidd dros deithio mewn car, yna cymudo (21.1%) a theithiau i ddigwyddiadau cymdeithasol neu adloniant (17.3%).

- Fel gyrrwr car, gwnaed 23.9% o deithiau at ddibenion cymudo, ac yna 21.6% o deithiau i siopa. Roedd 15.0% ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol neu adloniant.
- Roedd y teithiau fel teithiwr ychydig yn wahanol, a theithiau i ddigwyddiadau cymdeithasol neu adloniant (26.9%) oedd y pwrpas mwyaf poblogaidd ar gyfer y daith. Roedd 25.9% o deithiau fel teithiwr ar gyfer siopa, ac roedd 10.0% yn deithiau i'r gwaith neu oddi yno.

Profiad o deithio mewn car

Fe wnaethom ofyn cwestiynau ychwanegol i ddefnyddwyr ceir am eu profiad ar eu taith ddiweddaraf mewn car. Rydym wedi diffinio defnyddiwr car fel unrhyw ymatebydd sy'n dweud ei fod wedi teithio mewn car o leiaf unwaith bob ychydig o fisoedd. Roedd hyn yn cyfateb i tua 89.9% o'r ymatebwyr.

Bodlonrwydd cyffredinol ar y daith

- Dywedodd 81.9% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu taith yn gyffredinol (36.2% yn fodlon iawn a 45.7% yn eithaf bodlon). Dywedodd 11.4% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 5.0% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Roedd cyfran is o ddynion a ymatebodd yn teimlo'n fodlon ar eu taith gyffredinol (79.7%) o'i gymharu â menywod a ymatebodd (84.3%).

Bodlonrwydd ar ddiogelwch

- Dywedodd 85.7% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar eu diogelwch (38.8% yn fodlon iawn a 46.9% yn eithaf bodlon).
- Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng bodlonrwydd ar ddiogelwch a rhyw gydag 86.4% o'r menywod a ymatebodd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon o'i gymharu ag 85.5% o'r dynion a ymatebodd.
- Dywedodd 12.3% o ymatebwyr eu bod yn anfodlon ar eu hymdeimlad o ddiogelwch (9.4% yn eithaf anfodlon a 2.9% yn anfodlon iawn).

Bodlonrwydd ar nodweddion teithiau mewn car

Cafodd defnyddwyr ceir eu dewis ar hap i ateb cwestiynau ynghylch pa mor fodlon oeddent ar y canlynol:

- Yr wybodaeth oedd ar gael, dibynadwyedd amseroedd teithio a chyfleusterau ar ochr y ffordd er mwyn cael seibiant
- Golau, sbwriel, ansawdd ffyrdd, arwyddion ac ymylon ffyrdd
- Rheoli traffig yn ystod tagfeydd, yn ystod digwyddiadau fel gwrthdrawiadau neu gerbydau'n torri i lawr, yn ystod tywydd garw a chyn ac yn ystod gwaith ffordd.

Bodlonrwydd ar yr wybodaeth sydd ar gael

- Dywedodd 70.1% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar yr wybodaeth oedd ar gael a dywedodd 7.1% eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar ddibynadwyedd amseroedd teithio

- Roedd 77.6% o'r ymatebwyr yn fodlon ar ddibynadwyedd amseroedd teithio ac roedd 15.0% o'r ymatebwyr yn anfodlon.

Bodlonrwydd ar gyfleusterau ar ochr y ffordd er mwyn cael seibiant

- Roedd 56.6% o'r ymatebwyr yn fodlon ar gyfleusterau ar ochr y ffordd er mwyn cael seibiant ac roedd 15.9% o'r ymatebwyr yn anfodlon.

Bodlonrwydd ar yr wybodaeth sydd ar gael, dibynadwyedd amseroedd teithio a'r cyfleusterau ar ochr y ffordd er mwyn cael seibiant

Ffigur 5: Canran yr ymatebwyr sy'n fodlon ac yn anfodlon ar yr wybodaeth sydd ar gael, dibynadwyedd amseroedd teithio a chyfleusterau ar ochr y ffordd er mwyn cael seibiant, 2025/26.



Disgrifiad o Ffigur 5: Siart bar llorweddol yn dangos bod dros hanner yr ymatebwyr yn fodlon ar yr wybodaeth sydd ar gael, dibynadwyedd amseroedd teithio a chyfleusterau ar ochr y ffordd er mwyn cael seibiant. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr yn fodlon ar ddibynadwyedd amseroedd teithio, sef 77.6%. Roedd llai nag 20% o'r ymatebwyr yn anfodlon ar ddibynadwyedd amseroedd teithio a chyfleusterau ar ochr y ffordd ac roedd llai na 10% yn anfodlon ar yr wybodaeth a oedd ar gael.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, bodlonrwydd

Bodlonrwydd ar oleuadau

- Dywedodd 69.6% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar y goleuadau. Dywedodd 15.4% eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar sbwriel

- Dywedodd 52.2% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar sbwriel a dywedodd 39.2% eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar ansawdd ffyrdd

- Dywedodd 35.3% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar ansawdd ffyrdd. Ar y llaw arall, dywedodd 62.2% eu bod yn teimlo'n anfodlon. Dyma'r ffactor a oedd â'r lefel isaf o fodlonrwydd ymysg defnyddwyr ceir.

Bodlonrwydd ar arwyddion

- Dywedodd 74.1% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar arwyddion o'i gymharu ag 17.2% a oedd yn dweud eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar ymylon ffyrdd

- Dywedodd 68.2% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar ymylon ffyrdd a dywedodd 22.8% eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar oleuadau, sbwriel, ansawdd ffyrdd, arwyddion ac ymylon ffyrdd

Ffigur 6: Canran yr ymatebwyr sy'n fodlon ac yn anfodlon ar oleuadau, sbwriel, ansawdd ffyrdd, arwyddion ac ymylon ffyrdd, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 6: Siart bar llorweddol yn dangos bod dros hanner yr ymatebwyr yn fodlon ar y goleuadau, y sbwriel, yr arwyddion ac ymylon ffyrdd. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr yn fodlon ar yr arwyddion, sef 74.1%, yna goleuadau (69.6%) ac ymylon ffyrdd (68.2%). Dim ond 35.3% o ymatebwyr oedd yn fodlon ar ansawdd ffyrdd.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, bodlonrwydd

Bodlonrwydd ar reoli traffig yn ystod tagfeydd

- Dywedodd 52.3% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar y gwaith rheoli traffig yn ystod tagfeydd. Dywedodd 31.9% eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar reoli traffig yn ystod digwyddiadau, fel gwrthdrawiadau neu gerbydau'n torri i lawr

- Dywedodd 42.8% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar y gwaith rheoli traffig yn ystod digwyddiadau, fel gwrthdrawiadau neu gerbydau'n torri i lawr. Dywedodd 20.9% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar waith rheoli traffig yn ystod tywydd garw

- Dywedodd 51.0% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon ar y gwaith rheoli traffig yn ystod tywydd garw. Dywedodd 22.2% eu bod yn teimlo'n anfodlon.

Bodlonrwydd ar reoli traffig cyn ac yn ystod gwaith ffyrdd

- Roedd 45.8% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y gwaith rheoli traffig cyn ac yn ystod gwaith ffyrdd. Roedd 36.6% o ymatebwyr yn anfodlon.

Bodlonrwydd ar y gwaith rheoli traffig

Ffigur 7: Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon ac yn anfodlon yn ystod tagfeydd, digwyddiadau fel gwrthdrawiadau neu gerbydau'n torri i lawr, yn ystod tywydd garw a chyn ac yn ystod gwaith ffyrdd, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 7: Siart bar llorweddol yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr yn fodlon yn ystod tagfeydd a thywydd garw. Roedd llai na hanner yn fodlon yn ystod digwyddiadau fel gwrthdrawiadau neu gerbydau'n torri i lawr a chyn ac yn ystod gwaith ffordd.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, bodlonrwydd

Rhesymau pam y dewisodd ymatebwyr deithio mewn car

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn teithio mewn car o leiaf unwaith bob cwpl o fisoedd (89.9% o'r ymatebwyr) pam eu bod yn dewis teithio mewn car.

- Dewisodd bron i hanner (49.7%) yr ymatebwyr deithio mewn car oherwydd mai dyma'r "llwybr mwyaf uniongyrchol".
- Dewisodd 38.8% "roeddwn i'n teimlo y byddai'n fwy dibynadwy" a 33.1% oherwydd mai dyma'r "opsiwn rhataf".

Rhyw yr ymatebydd

- Yr un ymatebion oedd y rhesymau a ddewiswyd amlaf gan ddynion a menywod a wnaeth ymateb. Fodd bynnag, dewisodd cyfran uwch o ddynion y "llwybr mwyaf uniongyrchol" (52.8%) a'r "opsiwn rhataf" (37.7%) nag ymatebwyr a oedd yn fenywod (47.4% a 28.7%).

Statws anabledd

- Nid oedd y tri phrif reswm pam roedd ymatebwyr anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl yn teithio mewn car yn wahanol. Y "llwybr mwyaf uniongyrchol" oedd yr un mwyaf poblogaidd (53.0% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl a 42.7% o ymatebwyr anabl), ac yna "roeddwn yn teimlo y byddai'n fwy dibynadwy" (41.2% a 31.9% yn y drefn honno) a'r "opsiwn rhataf" (34.8% a 28.5% yn y drefn honno).

Rhanbarthau

- "Y llwybr mwyaf uniongyrchol" oedd y ffactor mwyaf cyffredin ar draws pob rhanbarth, gyda 51.4% yn Ne-ddwyrain Cymru, yna 50.6% yn Ne-orllewin Cymru, 46.6% yng Ngogledd Cymru a 45.3% yng Nghanolbarth Cymru.
- Roedd "roeddwn i'n teimlo y byddai'n fwy dibynadwy" hefyd yn rheswm cyffredin a ddewiswyd ar draws y rhanbarthau o 44.0% yn Ne-orllewin Cymru ac yna De-ddwyrain Cymru (39.1%), Gogledd Cymru (35.2%) a Chanolbarth Cymru (31.5%).
- Y trydydd rheswm mwyaf cyffredin yn Ne-orllewin Cymru (36.7%), De-ddwyrain Cymru (33.0%) a Gogledd Cymru (31.7%) oedd "opsiwn rhataf". Fodd bynnag, yng Nghanolbarth Cymru dewisodd 43.4% o'r ymatebwyr "yr unig opsiwn sydd ar gael".

Grŵp oedran

- Y "llwybr mwyaf uniongyrchol" oedd un o'r prif resymau a ddewiswyd gan bob grŵp oedran, ond mae cyfran yr ymatebwyr sy'n ei ddewis yn gostwng wrth i'r grŵp oedran gynyddu, o 53.6% o bobl 25-34 oed i 30.0% o bobl 85 oed neu hŷn.
- Ar gyfer ymatebwyr yn y grwpiau oedran rhwng 16-24 a 65-74 oed, roedd "roeddwn i'n teimlo y byddai'n fwy dibynadwy" hefyd yn rheswm a ddewiswyd yn gyffredin. Roedd hefyd yn gostwng wrth i'r grŵp oedran gynyddu, o 49.4% ar gyfer y rhai 25-34 oed i 31.9% ar gyfer y rhai 65-74 oed.
- Roedd yr "opsiwn rhataf" yn rheswm a ddewiswyd yn gyffredin gan ymatebwyr yn y grwpiau oedran rhwng 16-24 a 55-64 oed. Roedd "doeddwn i ddim yn credu bod unrhyw ddulliau teithio eraill" yn cael ei ddewis yn aml gan ymatebwyr mewn grwpiau oedran rhwng 65-74 oed ac 85 oed neu hŷn, ac roedd hyn yn cynyddu o 26.8% i 37.6%.
- Dewisodd 28.8% o'r ymatebwyr 75-84 oed "yr unig opsiwn sydd ar gael" a dewisodd 30.9% o'r ymatebwyr 85 oed neu'n hŷn "fi oedd y teithiwr a'r gyrrwr wnaeth benderfynu".

Rhesymau pam y dewisodd ymatebwyr deithio mewn car

Ffigur 8: Rhesymau dros ddewis teithio mewn car, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 8: Siart bar llorweddol yn dangos pam roedd ymatebydd wedi teithio mewn car. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd “y llwybr mwyaf uniongyrchol” (49.7%)

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, rhesymau dros deithio mewn car

Nodyn 1: Ar sail yr amlder teithio a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr, gofynnwyd y cwestiwn hwn i 5,505 (89.9%) o’r ymatebwyr.